



## Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/Clerk: Fflur Lawlor

E-bost/E-mail: [clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk](mailto:clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk)

### Cyfarfod mis Ebrill Cyngor Tref Tregaron / Tregaron Town Council April Meeting Nos Lun / Monday 15.04.2024

7.00yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

### COFNODION CYFARFOD CYNGOR MIS EBRILL / APRIL COUNCIL MEETING MINUTES

Eitem / Item	Gweithred / Action
<p>1. <b>CROESO / WELCOME</b> Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. <i>The Chair welcomed everyone to the meeting.</i></p> <p>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd / Chair) Catherine Hughes, Dafydd Richards, Dewi Evans, Gwion James, Rhian Jones, Meirian Morgan, Rhian Hughes, Owain Pugh &amp; Sian Jones (ar lein/online)</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p> <p>PSCO John Evans (ar lein/online)</p> <p>Cyng/Cllr Ifan Davies, Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion County Council Local Member</p>	
<p>2. <b>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES</b> Cyng/Cllr. Rhydian Wilson</p>	
<p>3. <b>SIARADWR / SPEAKER – MR GWERN GWYNFIL</b> Syniad newydd yw Rhiannon CIC a fyddai'n gweld menter gymdeithasol yn cael ei sefydlu yn Siop Rhiannon ar y Sgwâr. Roedd y Cyngor yn gefnogol i'r syniad os oedd ddim yn dyblygu'r gwasanaethau a gynigir eisoes yn y dref ac yn cymryd i ffwrdd oddi wrth sefydliadau eraill a'r hyn y maent yn ei gynnig yn eu lleoliadau. Hoffai'r Cynghorwyr gael mwy o wybodaeth am y fenter. Bydd y Cyng Dewi Evans a Rhydian Wilson yn cyfarfod â Gwern i drafod ymhellach a rhoi adborth i'r cyngor llawn. Gallai hyn gyd-fynd â syniad Tregaron 2050 a drafodwyd gan y Cyng Rhydian Wilson gyda'r cyngor yn flaenorol.</p> <p><i>Rhiannon CIC is a new idea that would see a social enterprise set up in Rhiannon Siop on the Square.</i></p>	<p>Cyng / Cllr Dewi Evans &amp; Rhydian Wilson</p>

	<p><i>The Council were supportive of the concept along as it didn't duplicate the services already offered in the town and took away from other organisations and what they offer at their venues.</i></p> <p><i>Councillors would like to have more information about the venture. Cllr Dewi Evans and Rhydian Wilson are to meet with Gwern to discuss this further and feedback to the full council. This could fit in with the Tregaron 2050 idea that Cllr Rhydian Wilson discussed with the council previously.</i></p>	
4.	<p><b>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS</b></p> <p>Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></p>	
5.	<p><b>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT</b></p> <p>Roedd PSCO John Evans yn bresennol – cwpwl o bethau i'w adrodd dros y mis diwethaf. <i>PSCO John Evans was present – couple of things to report from the last month.</i></p>	
6.	<p><b>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</b></p> <p>Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
7.	<p><b>CADARNHAU COFNODION 18/03/24 / APPROVAL OF MINUTES FROM 18/03/24</b></p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir. <i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Rhian Hughes Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Catherine Hughes</p>	
8.	<p><b>MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES</b></p> <p>3.2 – Llongyfarchiadau i Sara Davies ar ennill yn yr Wyl Ban Geltaidd yn ddiweddar yn dilyn ei llwyddiant yn Cân i Gymru. <i>Congratulations to Sara Davies on winning in the Pan Celtic Festival recently after her success in Can i Gymru.</i></p> <p>15 – Llongyfarchiadau i'r Cyngor Tref am dderbyn gwobr canmoliaeth uchel yn y categori 'Prosiect Treftadaeth Gorau' yn gwobrau Un Llais Cymru yn ddiweddar. Diolch i'r Cyng. Arwel Jones a Owain Pugh am fynychu y digwyddiad ar ran y Cyngor. Siom oedd gweld bod y Dystysgrif yn uniaith Saesneg ac nid yn ddwyieithog - Clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru i godi hyn.</p> <p><i>Congratulations to the Town Council for receiving a highly commended award in the 'Best Heritage Project' category at the recent One Voice Wales awards. Thanks to Cllr. Arwel Jones and Owain Pugh for attending the event on behalf of the Council.</i></p> <p><i>It was disappointing to see that the Certificate was in English only and not bilingual - Clerk to contact One Voice Wales to raise this.</i></p> <p>Fan Llyfrgell – galw yn y dref ar y 26ain o Ebrill rhwng 11am-1pm, ac yn galw yno ar yr ail a pedwerydd Dydd Gwener o bob mis yn y maes parcio tu ôl i'r Talbot. <i>Library Van – will be in town on the 26th of April between 11am-1pm, and call on the second and fourth Friday of each month at the Talbot Car Park.</i></p>	Clerc / Clerk
9.	<p><b>CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL</b></p>	

	<p>A) Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC –</i></p> <p>Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / <i>Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 19/03/2024 – Adolygiad o Drefniadau Cymunedol Sir Ceredigion / <i>Review of Community Arrangements of the County of Ceredigion</i> Mae newidiadau i ffin Ward Tregaron na fydd yn cael effaith fawr ar y ward. Mae nhw hefyd yn cynnig cwtogi nifer y Cynghorwyr ar gyfer Cyngor Tref Tregaron. Clerc i ymateb i'r adolygiad i wrthwynebu'r newid mewn niferoedd a gofyn pam eu bod yn bwriadu torri nifer y Cynghorwyr o 11 i 7. <i>There are changes to the Tregaron Ward boundary that won't have a big impact on the ward. They are also proposing to cut the number of Councillors for Tregaron Town Council. Clerk to respond to the review to object the change in numbers and ask why they are proposing to cut the number of Councillors from 11 to 7.</i></li> <li>• 20/03/2024 – Wi-Fi Canol y Dref – Cyfraniad Cyngor Tref – Ym mis Hydref 2021, cytunodd y Cyngor i gyfrannu £500 fel arian cyfatebol tuag at gost pecyn 5 mlynedd ar gyfer System Wi-Fi y Dref - Offer / ac ati – trwydded mynediad 5 mlynedd – 5 mlynedd o waith cynnal a chadw / diweddariadau meddalwedd – tudalen mewngofnodi 5 mlynedd i alluogi ymwelwyr i gael mynediad i wi-fi cyhoeddus 2002-2027. Anfonir yr anfoneb erbyn y cyfarfod nesaf. <i>Town Centre Wi-Fi – Town Council Contribution – In October 2021, the Council agreed to contribute £500 as match funding towards a 5 year package cost of the Town Wi-Fi System - Equipment etc – 5 years licence to access date – 5 years maintenance / software updates – 5 years login page to enable visitors to access the public wi-fi 2002-2027. Invoice will be sent by next meeting.</i></li> <li>• 20/03/2024 – Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion <i>County Council Strategic Equality Plan</i></li> <li>• 21/03/2024 – Adroddiad Ymgynghoriad CSGA <i>Consultation Report</i></li> <li>• 02/04/2024 – Goleuadau Croesfan Sebra – Stryd y Capel, Tregaron / <i>Zebra Crossing Lights – Chapel Street, Tregaron</i></li> <li>• 03/04/2024 – Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: A485/U1504 – Tregaron</i></li> <li>• 28/03/2024 – Gronfa Perchnogaeth Gymunedol / <i>Community Ownership Fund</i></li> <li>• 28/03/2024 – Mae Cyllid Coetiroedd Bach ar agor / <i>Tiny Forest Funding now open</i></li> <li>• 08/04/2024 – Cylchlythyr Gwanwyn Cynnal y Cardi <i>Newsletter Spring 2024</i></li> <li>• 08/04/2024 – Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: A485 Tynreithyn, Tregaron</i></li> <li>• 09/04/2024 – Notis Statudol Ysgol Gynradd Cei Newydd / <i>New Quay Primary Statutory Notice</i></li> <li>• 12/04/2024 – Bwletin Mis Ebrill Cynnal y Cardi <i>April Bulletin 2024</i></li> <li>• 15/04/2024 – Bwletin Costau Byw Cerdigion <i>Cost of Living Bulletin</i></li> <li>• 15/04/2024 – Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / <i>Special Events Road Closure: Gŵyl Gerddoriaeth Gymraeg Tregaroc Welsh Music Festival 2024</i></li> </ul>	Clerc / Clerk
--	---	---------------

	<p>B) Diweddariad gan yr Aelod Lleol / <i>Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></li> </ul> <p>C) Mae'r Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod â chynrychiolwyr CSC i drafod cymryd drosodd rhai gwasanaethau. Unwaith y bydd y prydles i a'r trwyddedau'n barod byddant yn eu hanfon ymlaen. Bydd toiledau'r Maes Parcio yn aros ar agor nes iddynt gael eu trosglwyddo i'r Cyngor Tref. Mwy o wybodaeth i ddilyn unwaith y bydd wedi ei dderbyn wrth CSC. <i>Chair &amp; Clerk have met with representatives from CCC to discuss taking over the some services. Once the leases and licences are ready, they'll send them on. The Car Park Toilets will remain open until they are transferred over to the Town Council. More information to follow once it's received from CCC.</i></p>													
10.	<p><b>CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS</b></p> <p>A) Taliadau / <i>Payments</i> Balans y Banc Mawrth / <i>March Bank Balance</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrif Busnes Cyfredol / <i>Business Current</i> – £10,116.19</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve</i> – £17,225.24</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Current (Cadeirydd / Chairman)</i> – £3,631.76</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve (Gratuity)</i> – £608.50</li> </ul> <p><u>Taliadau mis Chwefror / <i>February payments</i> –</u></p> <table> <tr> <td>• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i></td> <td>£291.70</td> </tr> <tr> <td>• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i></td> <td>£301.70</td> </tr> <tr> <td>• HMRC</td> <td>£148.40</td> </tr> <tr> <td>• Anrhegaron (Gwobr Gwyl Dewi / <i>St.Davids Day Award</i>)</td> <td>£60.00</td> </tr> <tr> <td>• Un Llais Cymru / <i>One Voice Wales</i> – (Aelodaeth 24/25 <i>Membership</i>)</td> <td>£257.00</td> </tr> <tr> <td>• O.Pugh (ad-daliad am deunyddiau i drwsio offer yn y parc / <i>re-imburement for materials to fix equipment at park</i>)</td> <td>£138.00</td> </tr> </table> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/Cllr Dewi Evans Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/Cllr Rhian Jones</p> <p>B) Incwm / <i>Income</i> – Cyfraniad o £30 wrth Cyngor Cymuned Llanddewi Brefi am ddefnyddio Sled Santa adeg y Nadolig. <i>A contribution of £30 to Llanddewi Brefi Community Council for the use of Santa's Sled at Christmas.</i></p> <p>C) Un Llais Cymru / <i>One Voice Wales</i> – (Aelodaeth 24/25 <i>Membership</i>) Penderfynwyd adnewyddu'r aelodaeth gydag Un Llais Cymru ar gyfer 2024/25. <i>It was decided to renew the membership with One Voice Wales for 2024/25. 7</i></p>	• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i>	£291.70	• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i>	£301.70	• HMRC	£148.40	• Anrhegaron (Gwobr Gwyl Dewi / <i>St.Davids Day Award</i> )	£60.00	• Un Llais Cymru / <i>One Voice Wales</i> – (Aelodaeth 24/25 <i>Membership</i> )	£257.00	• O.Pugh (ad-daliad am deunyddiau i drwsio offer yn y parc / <i>re-imburement for materials to fix equipment at park</i> )	£138.00	Clerc / <i>Clerk</i>
• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i>	£291.70													
• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i>	£301.70													
• HMRC	£148.40													
• Anrhegaron (Gwobr Gwyl Dewi / <i>St.Davids Day Award</i> )	£60.00													
• Un Llais Cymru / <i>One Voice Wales</i> – (Aelodaeth 24/25 <i>Membership</i> )	£257.00													
• O.Pugh (ad-daliad am deunyddiau i drwsio offer yn y parc / <i>re-imburement for materials to fix equipment at park</i> )	£138.00													
11.	<p><b>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER'S REPORT</b></p> <p>Dim i'w gofnodi. Mae angen gwneud y canlynol -</p>													

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Stryd y Capel, Heol Pontrhydefendigaid.</li> <li>• Glanhau strydoedd eraill yn eu tro.</li> </ul> <p>Bydd angen ymgynghori gyda'r gweithiwr Strydlun i drafod y newidiadau fydd mewn lle o 1af Ebrill ymlaen o ran cymryd gwasanaethau ychwanegol gan CSC. Y Cadeirydd i gwrdd â'r gweithiwr Strydlun i drafod a rhoi gwybod iddo am y gwasanaethau ychwanegol sy'n cael eu cymryd.</p> <p><i>The following needs to be done –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydfendigaid Road.</i></li> <li>• <i>Other streets to be cleaned in rotation.</i></li> </ul> <p><i>It will be necessary to consult with the Street scene worker to discuss the changes that will be in place from 1st April onwards with regards to taking on extra services from CCC. Chair to meet with the Street scene worker to discuss and inform him of the additional services that are being taken on.</i></p>	Cyng / Cllr Arwel Jones
12.	<p><b>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <u>Parc a Blodau / Park &amp; Flowers</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <u>Parc / Park</u></li> </ul> </li> </ul> <p>Gwiriadau bob wythnos lechyd a Diogelwch y Parc i barhau - bydd y Cyng. Catherine Hughes yn cynnal y gwiriadau yn Ebrill/Mai a Cyng. Rhian Jones i gynnal y gwiriadau yn Mehefin/Gorffennaf. Diolchwyd i Cyng Rhian Hughes am wneud mis diwethaf. Gwiriadau bob wythnos i'w wneud dros yr haf.</p> <p>ROSPA – Hysbysiad o archwiliad maes chwarae ym mis Mehefin - £75 + TAW <i>Weekly Health &amp; Safety checks of the Park to continue – Cllr Catherine Hughes will carry out the checks for April/May and Cllr. Rhian Jones to carry out the checks for June/July. Thanks was extended to Cllr Rhian Hughes for doing last month. Weekly checks to be carried out over the summer.</i></p> <p><i>ROSPA – Notification of play area inspection in June - £75 plus VAT</i></p> <p><u>Tendr Blodau a Torri Porfa / Flowers &amp; Grass Cutting tender</u> Derbyniwyd, trafodwyd a chytunwyd gan bawb y canlynol –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <u>Tendr Torri Porfa Parc Chwarae –</u></li> </ul> <p>Derbyniwyd 2 dendr ar gyfer torri gwair y parc chwarae.</p> <p>Cytunwyd i G Evans dorri'r Parc Chwarae gan fynd a'r porfa oddi yno.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <u>Tendr Torri Porfa Eglwys, Llwybr Doldre, y 5 arwydd, yr ymylion ar draws y dref a chae y parc –</u></li> </ul> <p>Derbyniwyd 2 dendr ar gyfer torri gwair yr uchod.</p>	Cyng/Cllr Catherine Hughes

	<p>Cytunwyd i D Benjamin i dorri yr uchod gan fynd a'r porfa oddi yno.</p> <p>Cynnig: Cyng Gwion James Eilio: Cyng Dewi Evans</p> <p><i>The following was accepted, discussed, and agreed by all –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Playing Park Grass Cutting Tender –</i></li> </ul> <p><i>2 tenders were received for mowing the play park.</i></p> <p><i>It was agreed that G Evans was to cut the Playing Park and remove the grass.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Church Grass Cutting Tender, Doldre path, the 5 signs, the verges across the town and the park field –</i></li> </ul> <p><i>2 tenders were received for mowing the above.</i></p> <p><i>It was agreed that D Benjamin was to cut the above and remove the grass.</i></p> <p><i>Proposed: Cllr Gwion James</i> <i>Secunder: Cllr Dewi Evans</i></p> <p><u>Tendr Blodau / Flowers Tender</u> Derbyniwyd, trafodwyd a chytunwyd gan bawb y canlynol –</p> <p>Derbyniwyd 1 tendr ar gyfer y blodau –</p> <p>Cytunwyd i Robert's Garden Centre i edrych ar ôl y blodau am 2024.</p> <p>Cynnig: Cyng Owain Pugh Eilio: Cyng Rhian Hughes</p> <p><i>The following was accepted, discussed, and agreed by all –</i></p> <p><i>1 tender was received for the flowers.</i></p> <p><i>It was agreed that Robert's Garden Centre was to look after the flowers for 2024.</i></p> <p><i>Proposed: Cllr Owain Pugh</i> <i>Secunder: Cllr Rhian Hughes</i></p>	Clerc / Clerk
12.	<p><b>PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS</b> Prif flaenoriaethau'r Cyngor Tref yw / <i>The Town Council's main priorities are -</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i></li> <li>2) Cae pob tywydd &amp; Trac Rhedeg / <i>All weather pitch &amp; Running Track</i></li> <li>3) Stondinau beiciau &amp; Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i></li> </ol>	

4) Gardd Gymunedol / *Community Garden*5) Prosiect Peilot Cau y Sgwâr / *Pilot project to close the main Square Closure*

Prif flaenoriaeth y Cyngor Tref am 2024 yw prosiect Llwybr Ystwyth. Cyng Arwel Jones, Dewi Evans a Rhydian Wilson i symud y prosiect ymlaen ac i hysbysu'r Cyngor Tref am unrhyw ddatblygiadau.

*The Town Council's main priority for 2024 is the Ystwyth Trail project. Cllrs. Arwel Jones, Dewi Evans and Rhydian Wilson to move the project forward and to keep the Town Council informed of any developments.*

Clerc wedi drafftio Cynllun Prosiectau'r Dyfodol – Cynghorwyr i gymryd cyfrifoldeb am un prosiect ac arwain –

*Clerk has drafted a Future Projects Plan – Councillors to take responsibility for one project and lead –*

	Prosiect / <i>Project</i>	Pwy / <i>Who</i>	Diweddariad / <i>Update</i>
1.	Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones, Rhydian Wilson & Dewi Evans	Ar waith <i>Ongoing</i>
2.	Stondinau beiciau & Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Clerc/Clerc	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
3.	Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i>	Cyng/Cllr Rhian Hughes	Aros am y brydles gan CSC <i>Waiting for the lease from CCC</i>
4.	Map o'r dref / <i>Town Map</i>	Cyng/Cllr Catherine Hughes Clerc/Clerc	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
5.	Gwefan i'r dref a'r Bwrdd Digidol / <i>Town Website &amp; Digital Board</i>	Cyng/Cllr Rhydian Wilson & Clerc/Clerc	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
6.	Ffynnon Garon	Cyng/Cllr Rhian Jones & D. Roberts	Ar waith <i>Ongoing</i>
7.	Llyfryn Llwybrau Tregaron / <i>Tregaron Trails booklet</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Rhydian Wilson	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>

1. Llwybr Ystwyth / *Ystwyth Trail*

Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda CNC a thrafodaethau anffurfiol gyda rhai perchnogion tir. Mae pethau'n symud ymlaen yn araf, bydd diweddariad arall yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.

*Discussions have taken place with NRW and informal discussions with some landowners. Things are moving forward slowly, another update will be given at next meeting.*

5. Gwefan a Bwrdd Digidol / *Website and Digital Board* –

	<p>Clerc i gysylltu â Gwe Cambrian i drafod cwblhau y wefan. Meddalwedd y bwrdd digidol nawr wedi ei gwblhau. Clerc angen cymorth i ddiweddarau'r wybodaeth. Gellir ychwanegu 3 defnyddiwr ychwanegol at y system. <i>Clerk to contact Gwe Cambrian to discuss the completion of the website. Digital Board software has been completed. Clerk needs help to update the information. An additional 3 users can be added to the system.</i></p>	
13.	<p><b>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS</b> Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></p>	
14.	<p><b>CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED</b> Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></p>	
15.	<p><b>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES</b> Ebyst wrth Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cyngorwyr cyn y cyfarfod. <i>Emails from One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p>	
16.	<p><b>PROSIECT CYLCH CARON / CYLCH CARON PROJECT</b> Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></p>	
17.	<p><b>HYFFORDDIANT AELODAU'R CYNGOR / COUNCIL MEMBERS TRAINING</b> a) Hyfforddiant Côt Ymddygiad – E-bost oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion yn holi os fyddent yn darparu Hyfforddiant Côt Ymddygiad ac a fyddai gan y Cyngor Tref ddiddordeb - Clerc wedi ymateb ac yn aros am ateb.  <i>Email from Ceredigion County Council with regards to if they were to provide Code of Conduct Training would the Town Council be interested - Clerk has responded and waiting for a reply.</i></p>	Clerc / Clerk
18.	<p><b>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</b> 18.1 - Carnifal Tregaron – gofyn am ganiatâd i ddefnyddio Cae y Parc ar 03/08/2024. Dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Tref ond nid oes prydles wedi ei arwyddo eto rhwng y Cyngor Tref a CSC.  <i>Carnifal Tregaron – asking for permission to use the Parc Field on 03/08/2024. No objection from Town Council but no lease has been signed yet between Town Council and CCC.</i>  18.2 - Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd / <i>The Urdd's Fund for All</i>  18.3- Cylchlythyr Croeso i Gerddwyr / <i>Walkers are Welcome CIC Newsletter</i>  18.4 - Planed – <i>'Catalysts for Care'</i> – Ceredigion</p>	Clerc / Clerk



	<p>18.5 - Rhodri Francis, Cered – Clwb Rhedeg Tregaron <i>Running Club</i>.</p> <p>18.6- Cymorth Ariannol / <i>Financial Assistance</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Clwb Cinio Tregaron <i>Lunch Club</i></li> <li>- Carnifal Tregaron <i>Carnival</i></li> <li>- Elusen Kids Cancer <i>Charity</i></li> </ul>	
19.	<p><b>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</b></p> <p>19.1 – Cyng/Cllr Gwion James – Mae nifer o ddraeniau wedi'u blocio ledled y dref ac mae nifer o dyllau ar Ffordd y Mynydd. Clerc i adrodd i CLIC. <i>Several drains are blocked throughout the town and there are several potholes on the Mountain Road. Clerk to report to CLIC.</i></p> <p>19.2 – Cyng/Cllr Owain Pugh – Wedi prynu deunyddiau i atgyweirio offer y parc. Dywedodd y Cadeirydd bod y Cyngor wedi gwneud cais i Cynnal y Cardi am offer newydd i'r parc felly i beidio â gwneud hyn am y tro hyd nes y byddwn yn awr yn gweld canlyniad y ceisiadau grant. <i>Has bought materials to repair the park equipment. Chair informed that the Council have applied to Cynnal y Cardi for new equipment for the park so to hold off for now until we know the outcome of the grant applications.</i></p> <p>19.3 – Cyng/Cllr Arwel Jones – Mae angen gosod y baneri ar ddechrau mis Mai. Cytunwyd i drefnu gydag Aber Pickers i wneud hyn. <i>The bunting and lamppost banners need to be put up at the beginning of May. It was decided to arrange with Aber Pickers to do this.</i></p> <p>Ar hyn o bryd mae 3 prosiect ar waith yn y dref sy'n chwilio am gyllid, Hamdden Caron, Clwb Rygbi Tregaron ac Ysgol Henry Richard. Mae angen sicrhau nad oes unrhyw drawsgrösiad yn amcanion y tri phrosiect. Mae'r Cyng Arwel Jones wedi cael cais i'r Cyngor Tref gydlyn cyfarfod rhwng yr uchod i drafod ymhellach. Cyng Arwel Jones a'r Clerc i drefnu. <i>Currently there are 3 projects ongoing in the town that are looking for funding, Caron Leisure, Tregaron Rugby Club and Ysgol Henry Richard. There is a need to ensure that there is no cross over in the objectives/outcomes of the three projects. Cllr Arwel Jones has had a request for the Town Council to co-ordinate a meeting between the above to discuss this. Cllr Arwel Jones &amp; Clerk to arrange.</i></p> <p>19.4 – Cyng/Cllr Rhian Jones – Mae Tregaroc wedi bod yn gwneud cais i gau'r ffordd gyda CSC ers sawl blwyddyn ac eleni mae'r gost wedi codi'n sylweddol. Nid oes unrhyw newid yn y cais ers llynedd ond mae'r gost wedi cynyddu! Gofynnodd y Cyng Rhian Jones i'r Aelod Lleol Cyng Ifan Davies a allai gysylltu â CSC i ddarganfod y rheswm am y cynnydd yn y gost.</p>	Clerc / Clerk

	<p><i>Tregaroc have been applying to close the road with CCC for several years and this year the cost has risen substantially. There is no change from previous years in the application form, but the cost has increased! Cllr Rhian Jones asked Local Member Cllr Ifan Davies if he could contact CCC to find out the reason for the increase in cost.</i></p> <p>19.5 – Derbyniwyd cais trwy law Aelod Lleol CSC, Cyng Ifan Davies o Bwyllgor Carinfal Tregaron – hoffai pwyllgor y carnifal greu mynedfa ychwanegol (gyferbyn â mynedfa'r mart) i gae'r parc. Nid oes gan y Cyngor Tref unrhyw wrthwynebiad i hyn ond nid oes ganddynt arian i gyfrannu at y gwaith hwn. Byddai angen caniatâd gan CSC gan nad yw'r Cyngor Tref wedi arwyddo'r brydles eto ar gyfer y cae. Hefyd, i ofyn i CSC ac oes angen caniatâd cynllunio.</p> <p><i>Request received via CCC Local Member, Cllr Ifan Davies from Tregaron Carnival Committee –</i> <i>The carnival committee would like to do an additional entrance (opposite the mart entrance) into the park field. The Town Council have no objection to this but would have no money to contribute to this work. Permission would need to be sought from CCC as the Town Council has not signed the lease yet for the field. Also, to find out if planning permission is needed.</i></p> <p>19.6 – Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais i gronfa Cynnal y Cardi ar gyfer sawl prosiect gwahanol yn y dref. <i>The Clerk has applied to the Cynnal y Cardi fund for several different projects in the town.</i></p>	Cyng / Cllr Ifan Davies
20.	<p>Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal nos Lun Mai 15fed 2024 am 7.30pm ynghyd â Chyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd Goffa Tregaron.</p> <p><i>The next monthly meeting will be held on Monday 15<sup>th</sup> May 2024 at 7.30pm along with the Annual General Meeting of the Council. It will be held at Tregaron Memorial Hall.</i></p>	
21.	Terfynwyd y cyfarfod / Meeting was closed	